Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Duncan Hall**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Cyllid a Chaffael**
**Corporate Lead Officer : Finance and Procurement**

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE
www.ceredigion.gov.uk

# Taliadau Gofal Seibiant/Tymor Byr ar Gyfer Y Flwyddyn 2026/27

Ar y 6ed o Ebrill 2016 cafodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lleisiant (Cymru) 2014 ei chyflwyno, ac felly, o'r dyddiad hwn y mae Gofal Seibiant a Gofal Tymor Byr yn cael ei asesu o dan rheolau Gwasanaethau Dibreswyl. O'r 6ed o Ebrill 2026 pennwyd uchafswm o £100.00 yr wythnos am hyn.

Y mae hyn yn berthnasol ar gyfer pobol sy'n derbyn Gofal Seibiant (am uchafswm o 6 wythnos) a Gofal Tymor Byr (lle nad yw'r gofal yn rhagori mwy na 8 wythnos yn ddi-dor ar unrhyw adeg).

Sylwer bod taliadau ar gyfer unrhyw Wasanaethau Dibreswyl a dderbynnir yn cael eu cyfrifo yn wythnosol o nos Llun i nos Sul yn gynhwysol.

Y mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw person mewn lleoliad Seibiant neu Dymor Byr am 1 noson yn unig, bydd y tâl yr un fath ag am arhosiad nos Lun i nos Sul. Os yw eu harhosiad yn ymestyn dros ddwy wythnos ar wahân er enghraifft o ddydd Mercher i ddydd Mercher, yna codir tâl arnynt am 2 wythnos. Mae hyn oherwydd bod eu harhosiad yn dechrau mewn un wythnos ac yn gorffen mewn wythnos arall gan fod yr wythnos a asesir yn dechrau ar nos Lun ac yn gorffen gyda'r nos Sul.

Ni fydd uchafswm eu cyfraniad wythnosol yn fwy na'u tâl wythnosol asesedig (os yn berthnasol) neu uchafswm y cap wythnosol o £100.00, p'un bynnag yw'r isaf.

Os cewch eich derbyn i'r Ysbyty yn ystod lleoliad Seibiant neu Dymor Byr, bydd tâl yn parhau am y lleoliad hyd nes y gwneir penderfyniad ynghylch a oes angen y lleoliad neu peidio.

Os ydych chi eisoes wedi cael eich asesu ar gyfer gwasanaethau dibreswyl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27 Bydd yr asesiad yn gymwys ar gyfer unrhyw leoliadau seibiant/tymor byr ac ni fydd yn rhaid i chi dalu mwy na'ch cyfraniadau wythnosol uchaf a aseswyd mewn unrhyw wythnos benodol.

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.**
**We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.**

**Prif Weithredwr / Chief Executive :** **Eifion Evans**
**Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Corporate Directors :** **Barry Rees**
**James Starbuck**